

## Yr Athro Syr Ian Diamond | Ystadegydd Gwladol

Peredur Owen Griffiths AS  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1SN

21 Hydref 2024

Annwyl Mr Griffiths,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 4 Hydref mewn perthynas â data ar dwf chwarterol yng Nghymru.

Gwnaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol (y SYG) y penderfyniad i oedi cyn cyhoeddi ein GDP Rhanbarthol Chwarterol (QRGDP) oherwydd pryderon a godwyd gan ddefnyddwyr mewn perthynas ag ansawdd ac anwadalrwydd yr amcangyfrifon. Cyhoeddwyd hyn ar 7 Gorffennaf 2023<sup>1</sup>, ar ôl rhyddhau'r cyhoeddiad a'r amcangyfrifon diwethaf ar 18 Mai 2023<sup>2</sup>.

Cyn datgan y byddai oedi cyn cyhoeddi'r QRGDP, trafododd y SYG y mater â Llywodraeth Cymru, yn ogystal â rhanddeiliaid eraill. Gan gydnabod y bwch posibl yn y data yn sgil oedi cyn cyhoeddi'r QRGDP, gwnaethom gytuno i barhau i gynhyrchu a darparu Dangosyddion Tymor-byr Cymru (WSTI) er mwyn darparu data chwarterol ar gyfer Cymru. Mae WSTI a'r QRGDP yn wahanol o ran ffynhonnell y data, y cwmpas (mae'r QRGDP hefyd yn cwmpasu rhanbarthau Lloegr) a'r broses gyfyngu (lle y mae'r QRGDP wedi'i gyfyngu i Gyfrifon Rhanbarthol Blyneddol a Chyfrifon Cenedlaethol Chwarterol) er mwyn sicrhau cysondeb.

Llywodraeth Cymru oedd yn ariannu'r amcangyfrifon hyn yn llwyr yn y gorffennol, ond gwnaethom gytuno i ariannu'r broses o gynhyrchu a dadansoddi'r amcangyfrifon hyn, a bod Llywodraeth Cymru yn ariannu'r elfen casglu data o ail chwarter 2023 ymlaen. Mae WSTI wedi parhau i gael ei ddarparu bob chwarter yn ystod y cyfnod o oedi cyn cyhoeddi'r QRGDP a chaiff ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru<sup>3</sup>.

Yn y cyfamser, mae'r SYG wedi bod yn gweithio gyda'r Ganolfan Ragoriaeth Economaidd annibynnol i adolygu'r dulliau ar gyfer QRGDP a'r ffordd y mae'r data hyn yn cyd-fynd â'r amcangyfrifon cenedlaethol. Rydym bron â chwblhau'r adolygiad hwn, a byddwn yn ystyried ei ganfyddiadau gyda'r bwriad o gyhoeddi'r QRGDP cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Bydd y SYG yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor hwn, yn ogystal â rhanddeiliaid eraill, yn ystod y cyfnod hwn er mwyn rhoi manylion ar gynnydd ac amserlenni pan fyddant yn gliriach.

Yn gywir,



**Yr Athro Syr Ian Diamond**

<sup>1</sup><https://www.ons.gov.uk/news/statementsandletters/pausingofquarterlyregionalgdpestimates>

<sup>2</sup><https://www.ons.gov.uk/economy/grossdomesticproductgdp/bulletins/gdpukregionsandcountries/julyto september2022>

<sup>3</sup> [Dangosyddion allbynnau tymor-byr | LLYW.CYMRU](https://www.llyw.cymru/)